

IOSH Tystysgrif Rheoli'n Ddiogel IOSH



Yn gwyno

Os ydych yn rheolwr neu'n oruchwylydd, bydd y cwrs hwn yn eich helpu i gymhwyso egwyddorion rheoli cadarn i faterion iechyd a diogelwch yn eich tîm fel rhan o strategaeth rheoli cyflawn. Gan ei fod yn fodiwlaidd o ran natur, gellir teilwra'r cwrs i gwrdd â'ch gofynion busnes unigol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...rheolwyr o unrhyw sefydliad neu sector sydd angen rheoli'n effeithiol ac effeithlon yn unol â pholisi diogelwch eu sefydliad a deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs 3.5 diwrnod (22 awr) hwn yn eich helpu i:

Gymhwyso egwyddorion ac arferion rheoli sylfaenol i faterion iechyd a diogelwch
Gosod amcanion iechyd a diogelwch ymarferol a gallu cynllunio a gweithredu cyrsiau i



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

gyflawni'r amcanion hynny

Adnabod peryglon sy'n bresennol yn y gweithle a gallu dethol mesurau rheoli priodol

Ystyried y peryglon a achosir gan ffactorau dynol

Sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth digonol yn cael eu darparu yn y gweithle

Ymchwilio i bob digwyddiad sy'n cynnwys anaf neu niwed i benderfynu beth a'u hachosodd a chymryd camau adfer priodol

Cyfathrebu'n effeithiol ynghylch materion iechyd a diogelwch gydag uwch swyddogion, gweithwyr a gweithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol

Cewch eich asesu gan bapur prawf amlddewis atebion byr o 25 cwestiwn a phrosiect ymarferol, ar ôl hynny byddwch yn derbyn tystysgrif Rheoli'n Ddiogel y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH).

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

